OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 738

# Rheoliadau Dadgofrestru a Chyfnewid Tir Comin a Meysydd Tref neu Bentref (Gweithdrefn) (Cymru) 2012

## RHAN 2

Gwneud a Phenderfynu Ceisiadau

**Archwilio a chyflenwi copïau o ddogfennau**

**8.**—(1) Rhaid i'r ceisydd sicrhau bod copïau o'r cais ac o'r dogfennau a gyflwynwyd ynghyd â'r cais ar gael i'w harchwilio yn y cyfeiriad a bennwyd at y diben hwnnw yn yr hysbysiad o gais, ar yr amseroedd a'r dyddiadau a bennwyd yn yr hysbysiad o gais.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r amseroedd a'r dyddiadau pan yw'n ofynnol bod y cais a'r dogfennau a gyflwynwyd ynghyd â'r cais ar gael i'w harchwilio gynnwys yr holl oriau swyddfa arferol yn ystod cyfnod o ddim llai nag 28 diwrnod, sy'n dod i ben ar ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwneud sylwadau.

(3) Caiff unrhyw berson ofyn am gopi gan y ceisydd, o'r cais ac o unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd ynghyd ag ef, drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad a bennir at y diben hwnnw yn yr hysbysiad o gais.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r ceisydd ymateb i gais am gopïau o dan baragraff (3) drwy gyflenwi'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(5) Caiff yr awdurdod sy'n penderfynu roi cyfarwyddyd sy'n awdurdodi trefniadau eraill ar gyfer archwilio neu gyflenwi copïau o ddogfennau, os bodlonir yr awdurdod na ellir, yn rhesymol, ddisgwyl i'r ceisydd gydymffurfio â'r rhwymedigaeth ym mharagraff (2) neu (4).